WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Anthony O'Sullivan
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Ystradmynach
CF82 7PG

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 594A2012 |
| **Dyddiad** | 17 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | 1 o 9 |

Annwyl Anthony

# Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o'm gwaith mewn perthynas ag adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 11 Hydref 2012 mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Byddaf hefyd yn parhau i wneud gwaith ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- roedd y Cyngor wedi cyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod 2011-12 yn Adroddiad Perfformiad 2009-12 (yr Adroddiad) o fewn y terfyn amser statudol 31 Hydref 2012;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12);
- mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau yn unol â mesuriadau'r dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion am y dulliau cydweithredu a ddefnyddiodd y Cyngor.

Fodd bynnag, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy:

- ddefnyddio sail dystiolaeth ehangach o wybodaeth er mwyn iddo allu asesu a lwyddodd i fodloni'r Amcanion Gwella a phenderfynu pa wahaniaeth a wnaeth hyn i ddefnyddwyr gwasanaethau;
- adrodd am ei berfformiad yn fwy cytbwys;
- gwneud defnydd gwell o'r wybodaeth gymharol sydd ar gael;
- sicrhau bod yr Adroddiad yn fwy darllenadwy a hygyrch i randdeiliaid a dinasyddion (gweler cynnig ar gyfer gwella P1).
- Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor wedi'u gwreiddio'n dda, ond mae anghysonderau o hyd yn y modd mae'n gwerthuso ac adrodd am ei berfformiad, gan lastwreiddio ei allu i wella mewn modd cytbwys a chynyddu cyflymder newidiadau mewn rhai meysydd.

## Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor wedi'u gwreiddio'n dda ac mae'n cydnabod bod angen gwella trefniadau craffu effeithiol

Dyma adroddiad perfformiad terfynol y Cyngor fel rhan o'i gynllun corfforaethol tair blynedd. Mae'n cyflwyno llwyddiannau a pherfformiad y Cyngor dros y tair blynedd diwethaf.

Mae gan y Cyngor sawl dull gwahanol ar gyfer adrodd a monitro perfformiad. Maent yn cynnwys pwyllgorau craffu ar berfformiad, y Cabinet, y Tîm Rheoli Corfforaethol a threfniadau ar lefel gwasanaeth. Mae'r Prif Weithredwr hefyd wedi ategu'r pwyslais ar amcanion gwella yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol. Defnyddir system Ffynnon fel y prif gyfrwng i hwyluso'r gwaith o fonitro perfformiad ac mae'r Cyngor wedi datblygu dangosfyrddau penodol o fewn Ffynnon er mwyn monitro ei amcanion gwella, cytundebau canlyniadau ac adrodd am berfformiad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae gwybodaeth Ffynnon ynghyd â'r adroddiadau perfformiad chwarterol yn sail i'r Adroddiad.

Roedd Penaethiaid Gwasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r broses o ddatblygu'r Adroddiad ac wedi cael cyfle i lywio'r naratif. Trafodwyd yr Adroddiad gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet hefyd cyn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 9 Hydref 2012. Ni thrafodwyd yr Adroddiad yn unrhyw un o'r pwyllgorau craffu, er eu bod yn trafod gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Wrth adolygu sampl o wybodaeth am berfformiad a gyflwynwyd i'r pwyllgorau craffu gan ddefnyddio dangosfyrddau Ffynnon, gwelwyd bod rhywfaint o anghysondeb yn y wybodaeth am Amcanion Gwella. Er enghraifft, nid oedd pob dangosfwrdd yn cynnwys perfformiad y flwyddyn flaenorol nac yn dangos bod risgiau wedi'u diweddaru. Ni chafodd gwybodaeth gymharol yn erbyn cyfartaledd Cymru ei chynnwys yn y mannau priodol. Dylai'r Cyngor ystyried defnyddio'r broses graffu i'r eithaf er mwyn helpu i werthuso a lwyddodd i gyflawni ei Amcanion Gwella (gweler cynnig ar gyfer gwella P2).

Mae gan yr Uned ganolog ar gyfer Rheoli Perfformiad swyddog cyswllt penodol ym mhob adran sy'n mynychu cyfarfodydd rheoli adrannol. Mae swyddogion yr adrannau hyn yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r her a ddarperir gan swyddogion cyswllt yr Uned. Mae amserlen yn dangos pryd y caiff perfformiad ei fonitro gan bob fforwm a phwyllgor gwahanol, fel y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

**Er bod y Cyngor wedi dechrau gwella'r modd y mae'n barnu ei berfformiad, mae angen gwneud cryn dipyn eto i fynd i'r afael â'r anghysonderau yn ei drefniadau gwerthuso er mwyn hybu gwelliannau'n well**

Mae Adroddiad y Cyngor yn rhoi ei ddyfarniad i'r darllenydd ynglŷn ag a yw wedi cyflawni'i flaenoriaethau a'i amcanion gwella. Mae wedi defnyddio'r system sgorio goleuadau traffig i ddangos ei ddyfarniad: Coch = aflwyddiannus; Oren = rhannol lwyddiannus; a Gwyrdd = llwyddiannus. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen o gymharu ag Adroddiad y llynedd. Barnwyd bod pump o'r saith amcan gwella yn 'llwyddiannus' tra bo'r ddau arall yn 'rhannol lwyddiannus'.

Mae angen i'r Cyngor asesu a gwerthuso'n well y wybodaeth sy'n cael ei monitro a'i hadrodd yn ystod y flwyddyn er mwyn gallu rheoli perfformiad gwasanaethau'n well. Ar y cyfan, nid yw'r adroddiadau perfformiad yn cynnwys unrhyw dystiolaeth arall yn gyson, fel gwybodaeth fwy ansoddol, a fyddai'n helpu i ddarparu darlun mwy cyflawn o berfformiad. Er bod gwasanaethau'n rhoi crynodeb o gynnydd eu perfformiad yn erbyn eu hamcanion

gwella i bwyllgorau craffu, yn gyffredinol, mae'n canolbwyntio ar y cynnydd yn erbyn camau gweithredu a mesurau. Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau'r trefniadau hyn fel bo'r adroddiadau eglurhaol yn gwerthuso neu asesu'n glir beth yw effaith y gweithredoedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau (gweler cynnig ar gyfer gwella P2). Wrth adolygu sampl o wasanaethau, gwelwyd bod rhywfaint o gyfeiriad at weithgarwch gwerthuso, fel gwerthuso Genesis2, rhaglen cymorth cyflogaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y gwerthusiad hwn yn cynnwys rhai astudiaethau achos a helpodd i ddangos effaith y fenter ar rai unigolion, ond ni ddefnyddiwyd y dull hwn yn Adroddiad y Cyngor.

Mae safbwyntiau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Estyn (gweler cynnig ar gyfer gwella P5) yn ategu'r anghysondeb yn ansawdd y trefniadau hunanwerthuso rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Daeth Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol AGGCC 2011-12 i'r casgliad bod adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi 'cyfrif cynhwysfawr a chywir o berfformiad ac mae'n amlwg yn adlewyrchu'r cyd-destun ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn lleol ac yn genedlaethol. Yn enwedig, mae cyfeiriadau at lwyddiannau yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant yn bwyllog ac yn adlewyrchu'r pwyslais ar welliannau a gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Caiff heriau o ran sicrhau gwelliannau eu cydnabod a rhoddir amlinelliad o sut y bwriedir eu goresgyn. Cafwyd tystiolaeth glir a chynhwysfawr gan y Cyngor i gefnogi ei hunanwerthusiad o wasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant fel ei gilydd. Mae Caerffili wedi llunio ei fframwaith canlyniadau ei hun sy'n arwydd o ymdriniaeth ystyrlon y gellir ei datblygu.'

Roedd Arolygiad Estyn ar wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc y Cyngor yng Ngorffennaf 2012 o'r farn bod ansawdd y gwasanaeth wedi gwella'n ddigonol, gan ddweud 'formal self-evaluation at a corporate level is not well-embedded in the work of the local authority. A self-evaluation report was prepared explicitly for the inspection and could not draw from any existing high-level process that brings together the Authority's evaluation of its own progress. A range of stakeholders contributed to the preparation of the self-evaluation report and generally represented all partners appropriately. However, the report does not evaluate impact on outcomes robustly enough or support assertions with relevant evidence consistently. It does not always accurately identify areas of strength or those needing further development' (gweler cynnig ar gyfer gwella P5).

Ar y cyfan, mae gwasanaethau'n llwyddo i reoli perfformiad yn effeithiol mewn sawl modd, ac mae'r gwaith o wella cysondeb ac effaith wedi dechrau. Er hynny mae gormod o fentrau ar draws y meysydd gwasanaethau lle nad oes unrhyw drefniadau i werthuso eu heffaith wedi'u cynnwys o'r cychwyn cyntaf, ac felly nid yw'r swyddogion yn gallu dweud a yw'r ymarfer sy'n datblygu yn effeithiol ai peidio. Un enghraifft o arfer dda yw pan fo cysylltiadau pendant â gwaith cynllunio a phwyslais priodol ar wella canlyniadau i ddysgwyr yn cyfrannu at welliannau mesuradwy mewn safonau. Nid oes cysondeb ar draws yr holl wasanaethau ac asiantaethau fodd bynnag. Bu cynnydd o ran datblygu'r gwaith o gasglu data priodol i lywio'r broses o ddyrannu adnoddau'n effeithiol, rheoli perfformiad ac adrodd. Mae'r gwaith hwn eisoes yn cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth. Er hynny, nid oes defnydd cyson o ddata i lywio gwerthusiadau ar draws pob maes.

Mae rhwydwaith o ymarfer proffesiynol wedi cael effaith fesuradwy ar allu ysgolion i reoli ymddygiad heriol.

'The Authority has not always responded consistently to recommendations from previous inspections of local authority education services. It has now improved its systematic monitoring of post inspection action planning and delivered progress in some key areas. Nevertheless, there are significant challenges where the Authority has not made enough progress such as the removal of surplus capacity from its secondary schools.'

**Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mabwysiadu dull adrodd ar sail canlyniadau, ond mae'n cydnabod bod angen iddo wella'r modd y mae'n cyfiawnhau ei berfformiad a dangos a yw wedi gwneud gwahaniaeth i ddinasyddion.**

Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys crynodeb cyffredinol o'r cynnydd yn 2011-12 ar gyfer pob amcan a blaenoriaeth gwella. Mae'r naratif wedyn yn seiliedig ar y cwestiynau: *'pa wahaniaeth wnaethom ni yn 2011/12, faint rydym wedi'i wneud, pa mor dda y gwnaethom ni, oes unrhyw un wedi elwa?'.* Er ei bod hi'n amlwg bod y Cyngor wedi ymdrechu i fabwysiadu dull adrodd sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau, a bod rhai canlyniadau wedi'u nodi, mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn faes sydd angen ei wella o hyd (gweler P3). Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu dulliau mwy cadarn o fesur canlyniadau, a fydd yn gymorth mwy effeithiol wrth benderfynu a lwyddodd i gyflawni ei Amcanion Gwella. Mae llawer o'r dangosyddion a ddefnyddir yn dal i fesur cyfanswm y gweithgareddau neu brosesau, yn hytrach na'r union ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Rydym yn cydnabod bod y Cyngor wedi parhau â'i fformat adrodd ar gyfer yr Adroddiad, gan mai dyma flwyddyn olaf y rhaglen tair blynedd. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym y bydd yn gwella'i ddull o asesu perfformiad y flwyddyn nesaf.

Wrth werthuso eu perfformiad, anogir Cynghorau i gynnwys canlyniadau'r adolygiad gan gymheiriaid, asesiadau craffu a ffynonellau eraill o wybodaeth fwy ansoddol fel pa mor fodlon yw cwsmeriaid â gwasanaethau a data meincnodi. Un o Amcanion Gwella'r Cyngor yw gwella'r modd y mae'n ymgysylltu â'i ddinasyddion ac yn gwrando ar farn cwsmeriaid am ei wasanaethau. Dylai'r Cyngor ddefnyddio gwybodaeth fwy cymharol ac ansoddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ateb y cwestiwn 'oes unrhyw un wedi elwa?' (gweler cynigion ar gyfer gwella P1 a P3).

Mae'r Cyngor yn adrodd am union berfformiad yn erbyn llawer iawn o fesurau gan gynnwys dangosyddion lleol a chenedlaethol. Er hynny, nid oes esboniad ynglŷn â'r ffaith a yw perfformiad yn gwella neu'n gwaethygu, ac mae rhai dangosyddion yn anodd eu deall ac yn agored i gael eu dehongli'n wahanol. Mae hyn yn llesteirio gallu'r darllenydd i benderfynu pa mor dda mae'r Cyngor yn ei wneud yn y meysydd hyn. Mae'r gwerthusiad o ystyr y ffigurau perfformiad, a pha wahaniaeth mae'r perfformiad yn ei wneud mewn gwirionedd i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau, yn gyfyngedig (gweler cynigion ar gyfer gwella P4).

**Nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n gyson i werthuso, adrodd a rhoi cyfrif am ei berfformiad mewn modd cytbwys, cyflawn a hygyrch.**

Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor wedi'i ddadansoddi'n ddigon trylwyr. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar asesu perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol. Mae'r Adroddiad yn cyflwyno'i berfformiad yn erbyn mesurau'r tair blynedd diwethaf, lle bo'r wybodaeth hon ar gael. Ond nid yw'r Adroddiad yn cynnwys unrhyw ddata cymharol sy'n dangos sut mae'r perfformiad yn cymharu â chynghorau eraill. Mae'r Cyngor wedi amlinellu ei resymeg dros beidio â chynnwys y data cymharol hwn yn yr Adroddiad. Heb wybodaeth o'r fath, fodd bynnag, mae'n anodd i'r Cyngor a'r cyhoedd farnu pa mor dda mae'r Cyngor yn perfformio o gymharu ag awdurdodau eraill. Mae hyn yn gwanhau hunanwerthusiad y Cyngor ac yn gwanhau ei allu i fod yn atebol am welliannau i'w ddinasyddion mewn ffordd gytbwys a chyflawn. Unwaith eto, fe godais y mater hwn eisoes fel cynnig ar gyfer gwella yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Chwefror 2012.

Mae perfformiad y Cyngor yn erbyn y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol yn dangos dirywiad amlwg yn 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2011-12, roedd 54 y cant o ddangosyddion wedi gwella, o gymharu â 77 y cant yn 2010-2011. Dangosir y wybodaeth hon yn yr Adroddiad fel siart bar, ond dim ond canran y dangosyddion sy'n gwella sy'n cael eu labelu'n benodol, er bod hi'n amlwg i'r darllenydd bod canran y dangosyddion sydd wedi dirywio dros ddwywaith y canran yn 2010-11.

Tra bod perfformiad yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol yn ffordd bwysig o fesur perfformiad, mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio mesurau lleol eraill i bennu ei berfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r Adroddiad yn cynnwys dadansoddiad cyffredinol cryno o berfformiad y Cyngor yn erbyn mesurau lleol, a fyddai'n cryfhau ei werthusiad cyffredinol o'i berfformiad a pha mor gytbwys yw'r dulliau adrodd.

Ar ben hynny, gallai'r Cyngor osod cyd-destun ac esboniad gwell o'i berfformiad er mwyn rhoi darlun mwy crwn a chytbwys. Er enghraifft, mae'r tri mesuriad Cyfnod Allweddol 3 a nodir yn Amcan Gwella 4 'Gwella lefel sgiliau plant a phobl ifanc' yn dangos gwelliant. Er hynny, nid yw'r Adroddiad yn dangos bod perfformiad y Cyngor yn y chwartel isaf ar gyfer y dangosyddion hyn, neu'n dangos a yw'r Cyngor wedi bodloni ei dargedau ar gyfer y dangosyddion hyn, nac a yw'r gwelliannau a wnaed yn golygu ei fod mewn sefyllfa well neu waeth (sgôr) na'r llynedd, o gymharu â holl Gynghorau eraill Cymru. Roedd arolygiad diweddar Estyn yn poeni am berfformiad cyrhaeddiad addysgol cam allweddol 3 y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gosod targedau ar gyfer ei holl fesurau perfformiad ar ddechrau'r flwyddyn, ac yn eu cyhoeddi yn ei fersiwn diweddaraf o Amcanion Gwella 2011-12. Mae'r targedau'n cael eu monitro yn ystod y flwyddyn ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol, ac yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau craffu. Fodd bynnag, nid yw'r Adroddiad yn cynnwys y ffigurau perfformiad cyffredinol yn erbyn y targedau i ddangos a lwyddodd y Cyngor i gyflawni'r hyn a fwriadwyd. Roedd yr esgeulustod hwn hefyd yn rhan o'r cynnig gwella yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddais ym mis Chwefror 2012, yn dilyn Adroddiad Perfformiad 2010-2011 y Cyngor.

Nid yw'r Cyngor yn credu bod angen adrodd am dargedau yn ei Adroddiad. Ond mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu dangos a lwyddodd i gyflawni'r hyn a fwriadwyd, ac felly nid oes modd i'r dinasyddion weld a yw'r Cyngor yn cyflawni gwelliannau yn ôl y bwriad. Mae targedau hefyd yn ffynhonnell tystiolaeth arall i werthuso perfformiad. Mae'r Adroddiad yn dweud bod llawer o'r dangosyddion cenedlaethol yn perfformio o'u gorau o gofio'r cyfyngiadau ariannol presennol, ond nid yw'n darparu unrhyw wybodaeth i gefnogi'r datganiad hwn nac yn dweud a lwyddodd i gyrraedd y lefel perfformiad fel y bwriadwyd. Byddai cynnwys darlun o berfformiad yn erbyn y targedau wedi rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad a gwelliannau'r Cyngor. Byddai darparu'r wybodaeth hon hefyd yn pwysleisio atebolrwydd y Cyngor i'w ddinasyddion, trwy ddangos y cynnydd yn erbyn y targedau a gyhoeddodd yn ei Gynllun Corfforaethol.

Mae ein dadansoddiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei dargedau yn Amcanion Gwella 2011-12 yn dangos ei fod wedi bodloni'r targedau yn erbyn 14 (61 y cant) o'r dangosyddion strategol cenedlaethol ac nad oedd wedi bodloni naw (39 y cant) ohonynt. Ni osodwyd targed ar gyfer dangosydd yn ymwneud â darparu rhagor o dai fforddiadwy. O'r naw dangosydd lle methwyd â chyrraedd targedau perfformiad, mae pump ohonynt ym maes gofal cymdeithasol.

Mae’r diffyg gwybodaeth am dargedau a pherfformiad cymharol yn effeithio ar allu’r Cyngor i roi darlun cytbwys o berfformiad. Cyfeiriais at hyn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol, Chwefror 2012, gan nodi cynnig ar gyfer gwella y dylai’r Cyngor wella trefniadau hunanasesu ac adrodd am berfformiad trwy gyflwyno darlun cytbwys o ba mor dda y perfformiodd.

Wrth adolygu’r Adroddiad, gwelais nad yw’r Cyngor yn mynd ati’n gyson i nodi’r camau gweithredu sydd angen eu cymryd i fynd i’r afael â meysydd perfformiad sy’n wael neu’n dirywio. Er enghraifft, dan Amcan Gwella 5 ‘Hyrwyddo manteision ffordd o fyw iach a gweithgar’, ceir adroddiad cywir ar nifer o feysydd perfformiad gwael o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, ond nid yw’n dweud beth yw bwriad y Cyngor o ran gwella perfformiad. Yn yr un modd, lle mae perfformiad wedi gwaethygu, fel y niferoedd sy’n hawlio prydau ysgol am ddim, nid yw’r Adroddiad yn ceisio dweud pam, neu sut y bydd y Cyngor yn mynd i’r afael â hyn, naill ai drwy ei gamau gweithredu ei hun neu ei bartneriaid.

Wrth adolygu’r camau gweithredu a’r mesurau yn niweddariad o Amcanion Gwella’r Cyngor 2011-12 yn erbyn y rhai sydd yn yr Adroddiad, roedd anghysondebau neu wybodaeth ar goll yn nhri o’r saith Amcan Gwella. Nodwyd anghysondebau hefyd yn yr Amcanion Gwella sy’n ymwneud â gofal cymdeithasol oedolion, cyfleoedd gwaith a ffordd o fyw gweithgar. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo fireinio ei ddull o adrodd ar berfformiad mewn modd cytbwys a thryloyw, yn seiliedig ar werthuso’r holl wybodaeth briodol.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad yn Gymraeg a Saesneg ar wefan y Cyngor. Nid yw hafan y Cyngor yn cyfeirio’r darllenydd at yr Adroddiad, ac felly mae’n anodd dod o hyd iddo ar y wefan. Mae’r Cyngor wedi cynnwys hysbyseb fach yn rhifyn mis Tachwedd o’i gylchgrawn, NewsLine, yn nodi’r ffaith fod modd gweld copi o’r Adroddiad yn adeiladau cyhoeddus y Cyngor yn ogystal â’i wefan. Ni ddefnyddiodd unrhyw gyfrwng arall i godi ymwybyddiaeth o’r Adroddiad ymysg ei randdeiliaid a’i bartneriaid allweddol.

Mae’r Cyngor wedi cyhoeddi crynodeb cyhoeddus byr ar y wefan hefyd, sy’n rhoi asesiad cryno o’r cynnydd yn erbyn pob un o flaenoriaethau ac Amcan Gwella’r Cyngor. Er ei fod yn nodi rhai meysydd perfformiad gwael, mae’r crynodeb yn canolbwyntio’n bennaf ar lwyddiannau’r Cyngor. Nid yw’n cynnwys digon o wybodaeth gyd-destunol er mwyn cyflwyno darlun mwy cytbwys o berfformiad.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ceir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Roedd fy llythyrau ac adroddiadau blaenorol yn cyfeirio at lawer o'r materion a godais eto yn y llythyr hwn. Byddaf yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| P1 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy:<br>• ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ehangach er mwyn asesu a lwyddodd i gyflawni'i amcanion gwella;<br>• ehangu'r defnydd o wybodaeth gymharol, gan gynnwys cymharu â chyrff eraill;<br>• adrodd ar ei berfformiad yn fwy cytbwys;<br>• rhoi'r cyfle gorau posibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid weld ei asesiad o berfformiad. |
| P2 | Ymgysylltu'n well a chryfhau dulliau craffu er mwyn gwella trefniadau hunanwerthuso a llywio gwerthusiad cyffredinol y Cyngor o'r cynnydd yn erbyn ei amcanion gwella. |
| P3 | Pennu amcanion gwella unigol a'u hadrodd yn erbyn mesurau llwyddiant sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. |
| P4 | Helpu darllenwyr i ddeall a dehongli dangosyddion perfformiad trwy gynnwys esboniadau a dangos a yw'r gwerthoedd uchel yn enghraifft o berfformiad da neu wael. |
| P5 | Sicrhau bod trefniadau effeithiol gan yr holl wasanaethau i werthuso a gwella perfformiad sy'n cael eu hadrodd yn gyson yn erbyn targedau penodol y Cyngor ac sy'n gallu gwrthsefyll trefniadau craffu a herio cadarn. |

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau